**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH EPT-16-01 (p3)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Tachwedd 2001
**Amser:** 2.00 i 4.30 pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

# ADRODDIAD CANOL TYMOR CADW

## Pwrpas

1. Cyflwyno adroddiad ar berfformiad Cadw yn erbyn targedau Asiantaeth a geir yn y Cynllun Corfforaethol a nodi argymhellion prisio eang ar gyfer 2002-03.

## Crynodeb

2. Cyfarfu Cadw â deuddeg o'i dri targed ar ddeg ym 1999-2000 ond ni fydd yn cyrraedd gymaint â hyn yn y flwyddyn bresennol, yn bennaf oherwydd effaith clwy'r traed a'r genau. Ar gyfer 2002-03 argymhellir cynyddu prisiau i gwmpasu costau uwch yn unol â chodiadau chwyddiant er mwyn cynnal incwm mewn termau gwirioneddol, ond dim mwy na hynny.

## Amseru

3. I'w ystyried yng nghyfarfod 14 Tachwedd.

## Cefndir ac ystyriaeth

4. Yn **Atodiad A** ceir tabl yn nodi alldro yn erbyn targedau ym 1999-2000 a pherfformiad i'r pwynt hanner ffordd (30 Medi 2001) yn y flwyddyn ariannol bresennol. Ceir esboniad byr o bob targed, ynghyd â sylw ar berfformiad lle y bo'n briodol.

5. Penderfynwyd ar yr allbynnau i'w mesur yn y targedau strategol ym 1994-95 pan gafodd yr Asiantaeth ei hadolygu ddiwethaf, ac eithrio'r gost net fesul targed ymwelwyr a gyflwynwyd ym 1996-97. Fodd bynnag, mewn termau meintiol mae'r targedau wedi newid dros amser.

6. Y llynedd cynyddwyd prisiau yn unol â chwyddiant. Er ein bod yn credu bod prisiau Cadw bellach ychydig yn is nag eraill yn y sector treftadaeth, ein bwriad yw dilyn trywydd tebyg y flwyddyn nesaf gan bod y farchnad ar y cyfan wedi dirywio, a'n nod yn syml fydd cwmpasu costau cynyddol. Bydd rhai amrywiadau yn dibynnu ar berfformiad safleoedd unigol a'r angen i ddelio mewn ffigurau sydd yn gwneud delio â newid yn ymarferol.

**Cydymffurfio**

7. Mae'n ofynnol bod Cadw yn cynhyrchu Cynllun Corfforaethol o dan delerau'r Ddogfen Fframwaith sydd yn diffinio ei gwmpas fel Asiantaeth Weithredol – nid oes sail statudol. Mae'r papur hwn yn nodi perfformiad canol y flwyddyn yn erbyn y targedau a geir yn y Cynllun Corfforaethol. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio eraill.

**Camau Gweithredu i'r Pwyllgor Pwnc**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a rhoi sylwadau ar yr adroddiad perfformiad a'r polisi prisio ar gyfer 2002-03.

**Pwynt cyswllt**

Tom Cassidy, Prif Weithredwr Cadw.

**Cadw**
**Tachwedd 2001**

**ATODIAD A**

**CADW: TARGEDAU ASIANTAETH 2001-02**

| | Targed | Perfformiad 2000-01 | Perfformiad 1 Ebrill – 30 Medi 2001 |
|---|---|---|---|
| 1 | Cwblhau 90% o'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cadwraeth<br>*Mae'r rhaglen flynyddol hon yn cynnwys rhestr broject ar gyfer cynnal a chadw ac atgyfnerthu henebion y gofelir amdanynt, lle y mae contractwyr allanol yn ogystal â gweithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan Cadw yn cymryd rhan. Trefnir y rhaglen hon gan Brif Bensaer Cadw a'i chadarnhau gan y Bwrdd Henebion.* | 90% | 51% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cyflawnwyd y targed y llynedd ond trwy drwch blewyn yn unig, a byddai wedi bod yn fwy oni bai fod carfanau wedi eu tynnu o rai safleoedd gwledig oherwydd cychwyn clwy'r traed a'r genau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, golyga eu hadleoli nad yw'r targed o dan fygythiad yn 2001-02. Nid yw'n anghyffredin i fod ymhell y tu hwnt i hanner ffordd i'w gyflawni ar 30 Medi oherwydd mae llawer o'r gwaith yn dibynnu ar y tywydd a'r haf yw'r cyfle gorau.* | | | | |
| 2 | Cwblhau 80 o Restrau Ail-arolygu | | 81 | | 29 |
| | *Rydym yn trafod rhestrau "ail" arolygu am i arolwg cynharach (ac anghyflawn iawn) o Gymru gael ei gynnal yn yr 1960au. Ceir 866 o ardaloedd cymunedol yng Nghymru, ac mae angen cwblhau rhestr ar gyfer pob un. Cwblhawyd 589 erbyn 30 Medi 2001. Rhestrir tua 1,500 o eiddo unigol ar gyfer pob blwyddyn. Mae'r gwaith wedi ei gontractio allan, ond caiff ei arolygu gan Cadw. Bydd perfformiad eleni yn cael ei effeithio gan glwy'r traed a'r genau am iddo effeithio ar yr ail-arolygu mewn ardaloedd gwledig, ac rydym yn annhebygol o gwblhau mwy na 60 o rhestrau.* | | | | |
| 3 | Datrys 90% o achosion rhestru lle y mae adeiladau o dan fygythiad o fewn 10 wythnos a 90% o rai eraill o fewn 17 wythnos | 90% | | 88%<br>83% | |
| | *Mae rhestru Ad hoc (neu yn fwy cyffredin, hap-restru) yn digwydd y tu allan i'r rhaglen ail-arolygu ac mewn ymateb i fygythiad dymchwel neu ddiwygio adeilad arwyddocaol y daw Cadw yn ymwybodol ohono. Arolygwyr Cadw sy'n gwneud y gwaith hwn.*<br>*Gwnaethpwyd y targed hwn yn fwy manwl yn y flwyddyn bresennol – cyn hyn yr oedd i ddatrys 75% o'r achosion o fewn 17 wythnos. Caiff perfformiad yn erbyn targedau eu monitro yn fisol o leiaf, ac yn sgîl hynny rydym yn cymryd camau pan ymddengys fod gostyngiad mewn perfformiad. Ar y pwynt hanner ffordd roedd ein perfformiad ychydig o dan y targed mewn achosion fel y rhain; ac wrth ddelio â cheisiadau grant henebion a thaliadau grant (targedau 8 a 9). Mae'r adnoddau wedi canolbwyntio ar y meysydd hyn ac rydym yn credu ein bod yn debygol o gyrraedd y targedau blynyddol ym mhob achos.* | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Cwblhau 120 o weithrediadau cofrestru y mae o leiaf 90% ohonynt yn cynnwys gwarchod ychwanegol<br>*Mae Cofrestru yn gwarchod henebion a gweddillion archeolegol. Mae achosion sydd yn cynnwys gwarchod ychwanegol yn cael eu gwahanu oddi wrth achosion eraill oherwydd y gall hyn – er enghraifft – olygu dadgofrestru cofeb. Roedd yn rhaid gohirio'r cofrestru – sy'n digwydd yn bennaf mewn ardaloedd gwledig- am rai misoedd oherwydd clwy'r traed a'r genau, ac rydym yn annhebygol o gwblhau mwy na 80 o weithrediadau cofrestru eleni.* | 121<br>95% | 48<br>92% |
| 5 | Datrys 80% o achosion caniatâd i adeilad rhestredig mewn pedair wythnos a 90% mewn saith wythnos<br>*Pan fydd awdurdodau lleol yn dewis rhoi caniatâd i adeilad rhestredig, mae'n rhaid iddynt ein hysbysu, ac mae opsiwn i 'alw' am benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Yn 2000-01 ystyriwyd 760 o achosion.* | 91%<br>95% | 89%<br>93% |
| 6 | Datrys 90% o achosion caniatâd mewn 13 o wythnosau<br>*Mae angen caniatâd ar y rhan fwyaf o waith i henebion cofrestredig, ac mae Cadw yn delio â'r fath achosion (yn hytrach na'r awdurdodau lleol).* | 93% | 93% |
| 7 | Datrys 80% o geisiadau grant adeiladau hanesyddol mewn 18 wythnos<br>*Mae grantiau adeiladau hanesyddol ar gael ar gyfer cadwraeth adeiladau "eithriadol" a'r rheini sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i ardaloedd cadwraeth. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio "eithriadol" a gwneir y penderfyniad hwn gan y Cyngor Adeiladau Hanesyddol, sy'n ystyried pob cais.* | 91% | 93% |
| 8 | Datrys 80% o geisiadau grant cofebau mewn 6 wythnos<br>*Mae grantiau cofebau i awdurdodau lleol a pherchenogion preifat yn amrywio o Gastell Aberystwyth i weddillion mwy cyffredin.* | 89% | 72% |
| 9 | Talu am 90% o'r ceisiadau am grant adeiladau hanesyddol sydd wedi ei gyflwyno yn gywir a cheisiadau am grant cofebau mewn 5 wythnos | 90% (ah)<br>98% (c) | 88% (ah)<br>84% (c) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Hunan esboniadol. Mae pob achos yn cynnwys rhywfaint o Gadarnhad, ac mae angen ymweliadau ar rai.* | | |
| 10 | Cyflawni cyfran o’r farchnad o 63% o nifer yr ymwelwyr yn y 20 safle treftadaeth uchaf<br>*Mae’r "ugain uchaf" yn cynnwys tri ar ddeg o eiddo Cadw, pump o eiddo’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chestyll Caerdydd a Phenfro. Aethom y tu hwnt i darged y llynedd o drwch blewyn ac yn nhermau gwirioneddol mae ein perfformiad hyd at 30 Medi fwy na thebyg yn cyfateb i hynny – mae cyfran y farchnad ychwanegol (2%) yn debygol o adlewyrchu cau rhai o eiddo’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ystod clwy’r traed a’r genau, a gafodd eu heffeithio yn fwy difrifol na safleoedd Cadw.* | 64% | 66% |
| 11 | Gostwng y gost uniongyrchol net fesul ymwelwydd i 25c<br>*Ar wahân i gostau cadwraeth, mae’r costau staffio a chyflwyno’r cofebau y gofelir amdanynt i’r cyhoedd yn mynd y tu hwnt i’r refeniw y maent yn eu hennill, ac felly mae’n bosibl cyfrifo "cost fesul ymwelydd".*<br>*Hwn oedd yr un targed y methwyd ei gyflawni y llynedd – fel atyniadau eraill, dioddefodd Cadw ddirywiad yn niferoedd yr ymwelwyr sy’n talu ac mewn incwm. Nid yw’n debygol y caiff y targed ei gyrraedd yn y flwyddyn bresennol – ar y pwynt hanner ffordd roedd gostyngiad o tua 10% yn y niferoedd (sy’n cyfateb ag atyniadau tebyg yng ngweddill Cymru a’r DU neu rywfaint yn well na hwy) o ganlyniad yn bennaf i glwy’r traed a’r genau a gostyngiad difrifol mewn ymwelwyr tramor.* | 35c | Dd/G |
| 12 | Gweithredu o fewn y rhaglen a neilltuwyd a rheoli cyllidebau costau rhedeg<br>*Hunanesboniadol.* | Cyflawnwyd | Yn debygol o’u cyflawni |
| 13 | Cyflawni arbedion effeithlonrwydd o 2% o leiaf.<br>*Hunanesboniadol. Cyfrifir newidiadau mewn cynhyrchiant ar sail mynegai perfformiad sy’n derbyn pedwar ar ddeg o brif feysydd gweithgaredd Cadw.* | 2% | Dd/G |